

Er budd

Guide Dogs Cymru

Parod, gan bwyll...

# Fund Race

Canllaw gwasanaeth CA 1–2

# Nodiadau athro

**Mae Fund Race yn ffordd hwyliog a syml o godi arian ar gyfer Cŵn Tywys, tra hefyd yn helpu eich myfyrwyr i ddysgu mwy am golli golwg.**

Oeddech chi'n gwybod bod tua 80 y cant o bopeth rydych chi'n ei ddysgu yn digwydd trwy'ch golwg? Gyda'r sgiliau, yr offer a'r addasiadau cywir, gall plant sydd wedi colli eu golwg wneud yr un pethau â'u ffrindiau.

Mae Cŵn Tywys yn fwyaf adnabyddus am ein cŵn anhygoel, ond rydym hefyd yn darparu llawer o wasanaethau eraill i oedolion a phlant sydd wedi colli eu golwg. Bob blwyddyn rydym yn cefnogi miloedd o blant ledled y DU sydd wedi colli eu golwg, a'u teuluoedd. Mae gennym ystod eang o wasanaethau i blant a phobl ifanc i sicrhau bod ganddynt y sgiliau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i ffynnu.

Gyda'ch cymorth chi gallwn greu byd mwy cynhwysol a hygyrch i bobl sydd wedi colli eu golwg. Dylai'r nodiadau hyn helpu gyda chynllunio'ch gwasanaeth, addaswch y cynnwys yn ôl yr angen. Os yn bosibl, cyflwynwch y gwasanaeth neu'r gweithgaredd hwn yn ystod y pythefnos cyn eich mabolgampau.



# Amlinelliad

**Nod y gwasanaeth hwn yw helpu myfyrwyr i gael gwell dealltwriaeth o sut y gall colli golwg effeithio ar fywyd plentyn, a sut y gall Cŵn Tywys helpu.**

Bydd cyfle i drafod sut y gallwn ddod yn gymdeithas fwy cynhwysol a sut y gall eich ysgol godi arian ar gyfer Cŵn Tywys.

## Peidiwch ag anghofio!

Defnyddiwch y canllaw hwn ochr yn ochr â'n cyflwyniad PowerPoint.



## Hyd

**Dylai'r gwasanaeth hwn bara tua 20 i 30 munud.** Gallwch addasu'r cynnwys i weddu i'ch anghenion neu os ydych wedi gwahodd siaradwr Cŵn Tywys i ymuno â chi.

## Allweddeiriau

- Colli golwg
- Nam ar y golwg
- Dall
- Yn rhannol ddall
- Cynhwysol
- Hygyrch

## Adnoddau sydd eu hangen

- Sgrin gyda mynediad i'r we.
- Offerynnau neu ddyfeisiau cerddorol i wneud synau.
- Athro arall i symud o gwmpas a chynorthwyo gyda'r synau.

# Sgript y gwasanaeth

**Heddiw, hoffwn i ni feddwl am ein golwg a cheisio deall beth mae'n ei olygu i fod yn ddall neu'n rhannol ddall.**

Sicrhewch y plant, er y gall hwn fod yn bwnc anodd siarad amdano, ei fod yn bwysig gan y gall effeithio ar unrhyw un. Cofiwch fod yn sensitif os oes unrhyw aelod o staff neu fyfyrwyr sydd wedi colli eu golwg.



## Eglurwch

**Rydyn ni i gyd yn gweld y byd yn wahanol. Efallai na fyddwch yn gallu gweld lliwiau neu efallai y bydd angen sbectol arnoch i addasu eich golwg.**

Gallech fod â chyflwr llygad sy'n achosi ichi golli rhywfaint o'ch golwg, neu efallai na fyddwch yn gallu gweld unrhyw beth o gwbl.

Mae'n bwysig ein bod ni i gyd yn cael profion llygaid rheolaidd, i wneud yn siŵr bod eich llygaid yn iach.

# Gweithgaredd 1

### Ceisio deall beth mae nam ar y golwg yn ei olygu.

Rhowch eich dwylo o flaen eich llygaid a gwnewch ddwrn ond gadewch fwlch bach, fel eich bod yn edrych trwy ysbienddrych. Fe ddylech chi bron allu gweld trwy'r canol, ond os ydych chi am weld eich traed neu'r nenfwd, bydd angen i chi symud eich pen.

### Tawelwch y grŵp ac eglurwch:

Bydd golwg rhai pobl yn cael eu heffeithio fel hyn; fe'i gelwir yn olwg twnnel ac mae'n un o'r nifer o ffyrdd y gellir effeithio ar olwg. Mae cael golwg rhannol yn golygu y gallwch chi weld o hyd ond rydych chi wedi colli rhywfaint o olwg.

## “ Gofynnwch i'r myfyrwyr

**Pa heriau ydych chi'n meddwl y gallai nam ar y golwg fel golwg twnnel neu ddallineb eu cyflwyno?**

# Gweithgaredd 2

### Rydyn ni'n mynd i wneud gweithgaredd byr i ddangos sut gallwn ni ddefnyddio ein synhwyrau eraill.

### Gwrandewch ar y cyfarwyddiadau os gwelwch yn dda:

Rydych chi'n mynd i gau eich llygaid, yna byddwch chi'n clywed cyfres o synau o wahanol leoedd o amgylch yr ystafell. Pan fyddwch chi'n eu clywed, rydw i eisiau ichi droi eich pen i wynebu pob sŵn. Yn gyntaf, dwi angen i chi i gyd orchuddio neu gau eich llygaid yn llwyr. Barod, llygaid ar gau?

Arwyddwch i'r athro arall i wneud y sŵn cyntaf, yna cuddio'r offeryn, arhoswch iddyn nhw i gyd droi.

Ailadroddwch, gydag ychydig o synau gwahanol o wahanol leoedd yn yr ystafell.

## “ Gofynnwch i'r myfyrwyr:

**All unrhyw un ddyfalu beth oedd y sŵn? A wnaethoch chi ei gael yn iawn?**



# Trafodaeth

**Gofynnwch iddynt godi eu dwylo a dweud a oedd unrhyw beth y gwnaethant sylwi arno o ran pa mor hawdd neu anodd oedd y gweithgaredd? Pa mor gyflym wnaethon nhw addasu i ddefnyddio eu clyw?**

## Eglurwch:

Gall rhywun sydd wedi colli ei olwg ddefnyddio ei synhwyrau eraill i gwblhau tasgau a gweithgareddau bob dydd. Er enghraifft, gall defnyddiwr ffôn clyfar osod ei ffôn i ddarllen negeseuon yn uchel. Mae llawer o ddyfeisiau wedi'u cynllunio fel hyn i fod yn hygyrch i bawb, mae ganddynt osodiadau y gellir eu haddasu ar gyfer pob person.

## “ Gofynnwch i'r myfyrwyr

**Oes rhywun yn gwybod beth mae cynhwysiant yn ei olygu?**
Mae cynhwysiant yn golygu gwneud yn siŵr bod pawb yn gallu bod yn nhw eu hunain a'n bod ni i gyd yn cael y cyfle i gymryd rhan.

**Sut allech chi wneud gweithgaredd yn hygyrch, i wneud yn siŵr bod ffrind sydd â nam ar y golwg yn cael ei gynnwys?**
Meddyliwch sut y gallai eich ffrind ddefnyddio ei synhwyrau eraill. Efallai y gallech annog gydag ychydig o enghreifftiau:

- **Cymryd rhan mewn chwaraeon –** Allwch chi newid camp mewn rhyw ffordd i'w wneud yn gynhwysol trwy gynnwys synhwyrau eraill mwy?
- **Yn y dosbarth –** Beth allai pobl ei wneud wrth fynd i mewn i ystafell ddosbarth neu ddechrau sgwrs fel bod pawb yn gwybod eu bod yno heb orfod defnyddio eu golwg? Enghraifft - cyhoeddi eu henw.
- **Y tu allan i'r ysgol –** Pa weithgareddau ydych chi'n eu mwynhau a sut allwn ni eu haddasu fel bod pawb yn gallu cymryd rhan, hyd yn oed os ydyn nhw wedi colli eu golwg?

# Ynghylch Cŵn Tywys



1 Mae dros 2 filiwn o bobl yn y Deyrnas Unedig wedi colli eu golwg ac mae 28,000 o'r rhain yn blant.

2 Mae Cŵn Tywys yn fwyaf adnabyddus am eu cŵn arbennig iawn, sydd wedi'u hyfforddi i dywys pobl yn ddiogel pan fyddant yn mynd allan. Maent hefyd yn darparu llawer o wasanaethau eraill.

3 Mae Cŵn Tywys yn gweithio gyda phlant i ddysgu amrywiaeth o sgiliau iddynt fel y gallant wneud yr un pethau â'u ffrindiau. Maen nhw'n dysgu plant sut i ddefnyddio ffon hir i fynd o gwmpas, sut i groesi ffyrdd/dringo grisiau/paratoi bwyd, sut i labelu pethau o gwmpas y cartref, a sut i ddefnyddio arian i brynu pethau. Maen nhw'n gweithio gydag ysgolion ac yn rhoi technoleg am ddim i blant, fel iPads, sydd â llawer o nodweddion ychwanegol sy'n gwneud gweithgareddau'n llawer haws. Gall cŵn tywys sydd wedi'u hyfforddi'n dda helpu plant â nam ar eu golwg i deimlo'n fwy hyderus.

# Fideo

Rydyn ni nawr yn mynd i wylio fideo byr gan Cŵn Tywys am Josie sydd â nam ar ei golwg.

**guidedogs.org.uk/FundRacePack**




## Gofynnwch i'r myfyrwyr

- **Oeddech chi wedi clywed am Gŵn Tywys?**
- **Oeddech chi'n gwybod am yr holl ffyrdd maen nhw'n helpu pobl?**
- **A wnaeth unrhyw ran o hyn eich synnu?**
- **Hoffech chi helpu Cŵn Tywys a phlant fel Josie?**

# Diwrnod Chwaraeon

Ar gyfer yr adran hon dylech roi amlinelliad o'r Fund Race ac egluro eich bod yn mynd i redeg y ras gynhwysol fel rhan o'ch gweithgareddau mabolgampau. Trafodwch gyda'r myfyrwyr sut yr hoffent godi arian ar gyfer Cŵn Tywys drwy'r digwyddiad hwn.

Efallai yr hoffech ddefnyddio ein clip fideo byr sy'n cyflwyno Fund Race i blant, ar gael yn **guidedogs.org.uk/FundRacePack**

# Crynodeb

Gallwn ni i gyd helpu gwneud y byd yn lle mwy cynhwysol i'n gilydd drwy feddwl am anghenion pobl eraill, rhoi'r rhyddid i bawb fod yn nhw eu hunain a chymryd yr amser i wneud yn siŵr bod pawb yn gallu cymryd rhan.



# Oes gennych chi'ch adnoddau rhad ac am ddim ar gyfer Fund Race?

**guidedogs.org.uk/FundRacePack**



Trefnwch siaradwr Cŵn Tywys
**guidedogs.org.uk/assembly**




Rhestr wirio Fund Race




Canllaw cymryd rhan




PowerPoint gwasanaeth




Fideo gwasanaeth




Posteri




Cerdyn post




Labeli bwced rhodd




Tystysgrifau




Templed mwgwd









Sticeri

Guide Dogs for the Blind Association yn gwmni a gyfyngir trwy warant ac yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (209617), yr Alban (SC038979) ac Ynys Manaw (1334). A317 03/23